

## “Mi fyddwn i’n dal i’ch caru”

*“Ond rwyf i’n dweud wrthyhych: peidiwch â gwrthsefyll y sawl sy’n gwneud drwg i chwi.” (adn. 39)*

### Beth am ddarllen Mathew 5:38–48 ac yna myfyrio

Mae gorchymyn Iesu “carwch eich gelynion” (adn. 44) nid yn unig yn heriol ond hefyd yn chwyldroadol. Y gelyn amlwg i Gristnogion y ganrif gyntaf oedd y Rhufeiniaid gyda’u gofynion diraddiol. Eto, mae’r Iesu’n dweud: “... os bydd rhywun yn dy orfodi i’w ddanfon am un cilomedr, dos gydag ef ddau.” (ad. 41)

Cariad Cristnogol, fel y dywedodd Martin Luther King, ydy’r rhinwedd mwyaf parhaol yn y byd. Yn anterth argyfwng yr Hawliau Sifil, ysgrifennodd yn herfeiddiol o garchar yn Georgia: “Gwnewch yr hyn a fynnwch i ni ac mi fyddwn ni’n dal i’ch caru ... Anfonwch eich troseddwyrs treisgar dan gwfl i’n cymuned ganol nos a churwch ni a’n gadael yn hanner marw, ac mi fyddwn ni’n dal i’ch caru ... Un dydd, mi enillwn ni ein rhyddid, ond nid yn unig ar ein cyfer ni ein hunain. Mi fyddwn ni hefyd yn apelio at eich calonnau a’ch cydwybod chithau, er mwyn i ni eich ennill chithau yn y broses, a bydd ein buddugoliaeth yn fuddugoliaeth ddwbl.”

Wrth gwrs, efallai na fydd raid i ni wynebu gwrthwynebiad mor eithriadol â Martin Luther King. Efallai mai ‘gelynion’ mwy cyffredin fydd gennym: rhywun sy’n ein sarhau heb reswm, rhywun sy’n ein taro ar ein boch dde (adn. 39), rhywun sy’n rhoi’r gyfraith arnom ar gam (adn. 40), neu rywun sy’n benthyg gennym yn anghyfrifol (adn. 42). Yn ein hymateb i’r holl bobl hyn, rydyn ni’n dangos nad cyfrwng cyfnewid ydy cariad – dydyn ni ddim yn disgwyl cael rhywbeth yn ôl am yr hyn a roddwyd. Yn hytrach, rydyn ni’n mentro arwydd neu weithred gariadus, gan ymddiried yn Nuw yn unig am ein gwobr (adn. 46). Yn y diwedd, efallai mai’r her fwyaf i ni fydd caru ‘gelyn’ drwy eu cyfarch ar y stryd (adn. 47)!

Mae dwy ffordd o gael gwared ar lwmp o rew: un ai ei falurio â morthwyl neu ei doddi. Os na fyddwch yn gallu ennill eraill mewn unrhyw ffordd arall, toddwch nhw â chariad.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Diar. 16:7–8; 24:17–18; 25:21–22; Rhuf. 5:6–11; 12:14–21

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ydy’r cyngor yn Diarhebion ynglŷn â gelynion?
2. Beth ydy cyngor Paul ynglŷn â thalu’n ôl?

### Gweddi

Iesu, dysga fi i fod yn berson mwy cariadus. Helpa fi i doddi pob sefyllfa â chariad – dy gariad di. A helpa fi i ddeall na allaf fethu os wyf yn caru, hyd yn oed os na fydd fy nghariad yn llwyddo yn ei amcan, gan mai wrth garu mwy y byddaf yn dod yn fwy cariadus. Amen.